# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 105(v4)

### Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 13.30

**Gofyn i Brif Weinidog Cymru**

**Mick Antoniw (Pontypridd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y goblygiadau i Gymru o gael trefniadau pwrpasol i Ogledd Iwerddon o ran ei ffin?

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus - Yr ymateb i'r ymgynghoriad

(45 munud)

**Dogfen ategol**

Ymgynghoriad: System addysg a hyfforddiant ôl-orfodol wedi'i diwygio

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

## 4 Dadl: Cyfnod 4 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

(15 munud)

**NDM6607** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo'r Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

## 5 Dadl: Cyllideb Ddrafft 2018-19

(120 mins)

**NDM6603** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-2019 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar 3 a 24 Hydref 2017.

**Dogfennau ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu at y Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes (Atodiad)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu nad yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-2019 yn diwallu anghenion pobl Cymru yn ddigonol.

## 6 Dadl: Ansawdd Aer

(60 munud)

**NDM6602** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr angen am gymryd camau brys, gan gynnwys gweithio ar draws pob adran o Lywodraeth Cymru, i fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael sy'n effeithio ar iechyd pobl ac amgylchedd naturiol Cymru.

2. Yn cefnogi datblygu cynllun aer glân i Gymru i sicrhau mwy o welliannau na'r lleiafswm cyfreithiol ar gyfer ein holl ddinasyddion, gan gynnwys:

a) llunio fframwaith parth aer glân i sicrhau bod y parthau aer glân yn cael eu cynnal yn gyson ac effeithlon gan yr awdurdodau, lleol, lle'r bo'r angen;

b) gwella'r ffordd y mae'r awdurdodau lleol yn adrodd ar faterion sy'n ymwneud ag ansawdd aer yn eu rhanbarthau, a'r ffordd y maent yn mynd i'r afael â nhw;

c) sefydlu canolfan asesu a monitro ansawdd aer Cymru, ar gyfer cynghori llywodraethau lleol a chenedlaethol ar faint o ansawdd aer gwael sydd ac ar effeithiolrwydd camau gweithredu, nawr ac yn y dyfodol;

d) sefydlu ymgyrch barhaus sy'n ymwneud ag ansawdd aer ac ymyriadau eraill i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ansawdd aer gwael ac i newid ymddygiad.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU i wireddu ei hymrwymiad i gael gwared ar geir a faniau diesel a phetrol erbyn 2040 drwy osod cerrig milltir penodol i'w cyrraedd

cyn y dyddiad hwnnw, gan gyflymu'r newid i system drafnidiaeth dim allyriadau yn y DU a chan sicrhau canlyniadau iechyd y cyhoedd yn gynharach.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i drin llygredd aer fel mater iechyd y cyhoedd.

Gwelliant 2. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar lygredd aer.

Gwelliant 3. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i fyrddau iechyd lleol ar hysbysu trigolion ynghylch lefelau llygredd aer.

Gwelliant 4. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar sut y dylid monitro ansawdd aer y tu allan i ysgolion ac ar lwybrau teithio llesol.

Gwelliant 5. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r mesurau arloesol a hyrwyddir gan Lywodraeth y DU, fel cael gwared ar bob injan diesel a phetrol erbyn 2040 - ac yn galw am fwy o gysylltiadau partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi hwn, er mwyn sicrhau'r newid i drafnidiaeth ffordd dim allyriadau yn y DU a chyflwyno'r canlyniadau cysylltiedig i iechyd y cyhoedd.

Gwelliant 6. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i ddatgarboneiddio'r sector trafnidiaeth ac yn croesawu'r ddarpariaeth o £2 miliwn tuag at drydanu cerbydau trydan o ganlyniad i'r cytundeb rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru ar y gyllideb.

## 7 Cyfnod Pleidleisio

## Crynodeb o Bleidleisiau

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 6 Rhagfyr 2017

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 30/11/17 i'w hateb ar 05/12/17

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

1 OAQ51393

A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau'r broses ar gyfer ymdrin â chwynion nad yw'r Prif Weinidog wedi cadw at god y gweinidogion?

**David Melding** *Canol De Cymru*

2 OAQ51417

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am recriwtio athrawon yng Nghanol De Cymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

3 OAQ51414 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau ford gron Llywodraeth Cymru ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

4 OAQ51403

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau i hyrwyddo bod yn agored a thryloyw o fewn Llywodraeth Cymru?

**Steffan Lewis** *Dwyrain De Cymru*

5 OAQ51401

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OAQ51438

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad mewn ymateb i'r cyhoeddiad bod y cyfanwerthwr Palmer a Harvey wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

7 OAQ51439

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith credyd cynhwysol yn Nhorfaen?

**David Rees** *Aberafan*

8 OAQ51428

A yw'r Prif Weinidog wedi ceisio cyngor cyfreithiol ar y cyfamod sy'n bodoli ar y tir ym mharc diwydiannol Baglan y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dymuno adeiladu carchar newydd arno?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

**9** OAQ51409

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau ar gyfer cleifion demensia yn ne-ddwyrain Cymru?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**10** OAQ51440

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau ar gyfer datblygu economaidd yng nghwm Afan?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**11** OAQ51437 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gylch gorchwyl ymchwiliad y cynghorydd annibynnol i Lywodraeth Cymru ar god y gweinidogion?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**12** OAQ51427 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal o effaith datblygiadau tai ar yr iaith Gymraeg?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

**13** OAQ51395

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatganoli plismona i Gymru?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**14** OAQ51441

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am benodi cynghorwyr Llywodraeth Cymru?

**Lee Waters** *Llanelli*

**15** OAQ51436

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013?

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

---

**Dydd Mawrth 12 Rhagfyr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Gweithio Gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth: Cysylltu Cymru, agwedd strategol tuag at Drafnidiaeth (45 munud)
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (30 munud)
- Dadl: Adolygiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer 2016-2017 (60 munud)
- Dadl: Cyfnod 4 y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (15 munud)

**Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Heb gyrraedd gwreiddyn y mater: uchelgais newydd ar gyfer polisïau coetiroedd (60 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)

**Toriad: Dydd Llun 18 Rhagfyr 2017 – Dydd Sul 7 Ionawr 2018**

**Dydd Mawrth 9 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol (15 munud)

**Dydd Mercher 10 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Llanw'n Troi? Adroddiad yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 16 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (45 munud)
- Dadl: Cyllideb Derfynol 2018-19 (60 munud)

**Dydd Mercher 17 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Glystyrau Gofal Sylfaenol (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)